Gwirfoddolwyr Rhithwir – Fideo

0:08
Prynhawn da.

0:09
Fy enw i yw'r Doethur Martin Wright.

0:12
Ac rwy'n swyddog heddlu wedi ymddeol.

0:14
Rwy'n dal swyddi di-gyflog ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru.

0:21
Ond, yn fwy perthnasol, rwy'n wirfoddolwr cefnogi'r heddlu gyda Heddlu Dyfed-Powys

0:25
a gwirfoddolwr arbenigol gydag Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Tarian yn y De.

0:30
Rwyf am siarad â chi heddiw am Wirfoddolwyr Rhithwir.

0:34
Rydw i'n mynd i ddangos y rhaglen i chi nawr.

0:42
Felly gallwch nawr weld mewnrwyd Prifysgol De Cymru.

0:46
Dyma'r rhaglen fyw.

0:48
Mae hyn ar gael i bob myfyriwr ac aelod o staff yn y brifysgol.

0:52
Rhaid bod ganddyn nhw gyfeiriad e-bost cyfredol, manylion mewngofnodi a dilysiad i gael mynediad i'r rhaglen. Ac mae hyn i'w gael ar dudalennau gyrfaoedd mewnrwyd y brifysgol, lle mae'r brifysgol yn annog myfyrwyr i ymgymryd â dysgu a phrofiad seiliedig ar waith er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer graddio o'r brifysgol.

1:15
Yn rhesymegol, felly, mae hyn ar gael i bob myfyriwr ar unrhyw adeg pan maen nhw'n defnyddio unrhyw ddyfais, pan maen nhw mewn unrhyw leoliad.

1:25

Ac oherwydd nad yw'r wybodaeth a bostiwyd yma gan yr heddlu naill ai'n gyfyngedig nac yn gyfrinachol, mae'n golygu y gall unrhyw fyfyriwr wirfoddoli i'r heddlu yn y ffordd hon.

1:36
Felly, yn bwysicaf oll, mae Gwirfoddolwyr Rhithwir i gyd yn ymwneud â myfyrwyr yn gwirfoddoli'n ffurfiol i'r heddlu, math o wirfoddoli sydd bellach yn cael ei gydnabod gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu , ac mae eu gwirfoddoli ar ffurf datrys problemau.

1:51
Yn yr achos penodol hwn, maen nhw'n edrych ar broblemau troseddu mawr, cymhleth ac anorchfygol ac yn ceisio cynnig atebion iddyn nhw.

2:00
Fodd bynnag, nid oes rhaid iddo fod yn broblem droseddu o reidrwydd.

2:03
Gallai hefyd fod yn fater o bolisi neu arfer plismona, stopio a chwilio, defnydd grym yr heddlu ac ati.

2:10
Rydw i'n mynd i ddangos trosolwg i chi nawr o sut olwg sydd ar y rhaglenni ac yna byddaf yn dangos un i chi yn fanylach.

2:17
Felly dyma'r cyntaf o raglenni'r Ganolfan Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched a Diogelu'r Cyhoedd.

2:21
Mae'r ail raglen – sy'n cael ei datblygu ganddyn nhw nawr – yn ymwneud â sbeicio, trwy fêps a hefyd trwy ddiodydd alcoholig.

2:30
Ac mae'r rhain yn amlwg yn canolbwyntio'n fawr ar lesiant myfyrwyr a diogelwch myfyrwyr hefyd.

2:35
Ac mae'r Ganolfan Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched a Diogelu'r Cyhoedd yn wirioneddol awyddus i gael adborth gan fyfyrwyr ynghylch y troseddau hyn.

2:41
A'r cyntaf yma yw cam-drin menywod a merched wedi'i hwyluso gan dechnoleg.

2:45
Dyma'r cyntaf o broblemau troseddu fy heddlu fy hun.

2:48
Troseddau gwledig cyfundrefnol yw hyn.

2:51
Yr ail yw tyfu canabis mewn eiddo gwag.

2:59
Ac yna mae gennym gyfres o broblemau troseddu gan yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol.

3:04
Dyma droseddu sy'n cael ei alluogi gan ddeallusrwydd artiffisial.

3:07
Pethau fel delweddau ffug dwfn o natur baedoffilig, twyll rhamantus, twyll ariannol ac yna gwyngalchu arian.

3:13
Unwaith eto, mae'r un yma'n canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n cael eu targedu gan grwpiau troseddau cyfundrefnol i ganiatáu iddynt gael mynediad i'w cyfrifon banc yn y DU.

3:21
Felly, unwaith eto, mae yna agweddau yma ar lesiant myfyrwyr a diogelwch myfyrwyr.

3:27
Rhaglenni sy'n defnyddio elfennau o gemau yw'r rhaglenni hyn.

3:31
Mae'n rhaid i'r myfyrwyr weithio trwy bob un o'r modiwlau yn eu trefn ac, fel y gallwch weld, mae'r cyfan wedi'i frandio gan yr heddlu.

3:37
Felly mae'n bolisi bod y myfyrwyr yn gwybod eu bod nhw mewn gwirionedd yn gwirfoddoli i'r heddlu.

3:43
Ar frig pob un o'r rhaglenni hyn, mae bar sy'n dweud wrth y myfyrwyr pa mor bell maen nhw wedi cyrraedd drwy'r rhaglen ac mae'n cynnwys cyfres gyfan o fodiwlau.

3:53
Felly'r rhan hon yma yw'r hyn rydyn ni'n ei alw'n elfen darllen ac ymchwil o fewn y fethodoleg 4R rydyn ni'n ei defnyddio.

4:03
Yn yr ail adran, gofynnir i'r myfyrwyr ateb rhai cwestiynau cymhleth iawn.

4:09
A dyma ail ran rhaglen y 4R, lle mae'n rhaid iddyn nhw fyfyrio ar y gwaith maen nhw wedi'i wneud hyd yn hyn ac yna cynnig argymhellion.

4:18

Ac yna, yn y pen draw, os yw'r myfyrwyr yn cwblhau popeth o fewn y gêm, maen nhw'n cael mynediad at yr elfen hon.

4:24
A dyma'r wobr.

4:26
Ac, fel y gallwch weld ar unwaith, rydym bob amser yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ffurfiau mwy ffurfiol o wirfoddoli gyda'r heddlu a/neu yrfaoedd o fewn y gwasanaeth hefyd. Oherwydd, yn amlwg, gall fod gan fyfyrwyr rywfaint o ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r troseddau hyn.

4:42
Rydym hefyd yn hyrwyddo Crimestoppers a Chymorth i Ddioddefwyr ac mae'r rhain yn rhaglenni cymorth ychwanegol yn ogystal â'r hyn y byddai'r brifysgol yn ei gynnig i fyfyrwyr fel rhan o'r drefn.

4:55
Byddaf yn dangos i chi'n fyr iawn sut olwg sydd ar y rhaglen hon.

4:59
Felly mae yna gyflwyniad fideo bob amser yn cael ei roi gan brif swyddog heddlu.

5:03
Nid yw amser yn caniatáu i mi ei chwarae'n llawn, ond rhoddaf drosolwg i chi o sut olwg sydd arno.

5:10
Helô, fy enw i yw Ifan Charles, Prif Gwnstabl dros dro Heddlu Dyfed-Powys.

5:16
Hello, my name is Ifan Charles, the temporary Chief Constable of Dyfed Powys Police.

5:23
Felly mae'r Prif Gwnstabl, mae bellach wedi'i gadarnhau fel Prif Gwnstabl, yn rhoi cyflwyniad yn Gymraeg ac yna'r gweddill yn Saesneg, gan gydnabod ein bod ni'n heddlu yng Nghymru a bod hon yn brifysgol yng Nghymru.

5:35
Felly mae cyflwyniad fideo yn cael ei roi i'r myfyrwyr ac mae'n rhoi ychydig o gyd-destun am yr heddlu ac yna gofynnir rhai cwestiynau i'r myfyrwyr ac mae'r rhain yn dod ar ffurf y cod QR a dogfen Microsoft Forms.

5:47
Mae'r data a gynhyrchir yma yn mynd yn ôl yn uniongyrchol i Heddlu Dyfed-Powys.

5:52
Felly nid yw'r data hwn yn cipio unrhyw fanylion o ran enwau myfyrwyr unigol, cyfeiriadau e-bost, dim manylion personol o gwbl, ond mae'n cipio'r holl ddata demograffig sydd ei angen arnom fel heddlu i ddychwelyd i'r Swyddfa Gartref.

6:09
Fel rwy'n ei ddweud, mae pob Gwirfoddolwr Rhithwir bellach wedi'i ddosbarthu'n ffurfiol fel Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, felly gall pob Gwirfoddolwr Rhithwir nawr fynd ymlaen i'ch ffurflenni Colofn 6 o dan y Warant Plismona Bro.

6:25
Bydd yr holl ddata hwn yn cyfateb i'r data y mae'n ofynnol i chi ei anfon yn ôl i'r Swyddfa Gartref.

6:30
A phob tro y bydd myfyriwr yn cyflwyno un o'r ffurflenni hyn, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cofnodi cyfanswm o 20 awr o wirfoddoli yn erbyn y math penodol hwn o drosedd, sef troseddau gwledig cyfundrefnol yn yr achos hwn.

6:47
Dylwn dynnu sylw yma at y ffaith ein bod hefyd yn gofyn cwestiynau am lefelau ymddiriedaeth a hyder y myfyrwyr yn yr heddlu.

6:54
Mae hyn yn wirioneddol bwysig oherwydd, wrth wraidd Gwirfoddolwyr Rhithwir, mae'r syniad hwn o ymgysylltu a chyfranogi gyda'r heddlu, gan geisio mynd i'r afael â dau bryder allweddol.

7:05
Un yw ymddiriedaeth a hyder a'r ail yw'r gostyngiad yn nifer yr unigolion sydd bellach yn barod i wirfoddoli i'r heddlu.

7:13
Ac mae hynny'n wirioneddol bwysig.

7:15
Drwy'r dull datrys problemau, rydym yn ceisio ennill rhywbeth a alwn yn ennill calonnau a ffonau.

7:24
Felly mae'r elfen hon o fewn y gêm i gyd yn ymwneud â'r darllen a'r ymchwil, ac mae yna lawer iawn o waith y mae'n rhaid i'r myfyrwyr ei gwblhau pan fyddan nhw'n dechrau edrych ar y rhaglen hon.

7:35
I'r graddau y mae nifer o raglenni gradd ym Mhrifysgol De Cymru bellach yn ymgorffori'r rhain a phroblemau troseddu eraill yn y cwricwlwm. Ac mae hynny'n amlwg yn ysgogi nifer fawr iawn o fyfyrwyr i gwblhau'r rhaglen.

7:49
Er enghraifft, mewn seicoleg fforensig, mae modiwl ar Lefel 6, y flwyddyn olaf, trydedd flwyddyn gradd israddedig, lle byddem yn gweld rhywbeth fel 120 o gyflwyniadau gan fyfyrwyr.

8:02

Mae'n rhaid i'r myfyrwyr weithio drwy'r holl ddeunyddiau rydw i wedi'u hamlygu yma, ac mae darllen ychwanegol ac ymchwil ychwanegol y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud drwy'r dolenni gwe yma.

8:14
Unwaith y bydd y myfyrwyr wedi cwblhau eu holl ddarllen ac ymchwil, gofynnir iddyn nhw feddwl am natur wirioneddol y drosedd ei hun a meddwl am rai awgrymiadau.

8:23
Felly mae'n rhaid iddyn nhw fyfyrio arno.

8:26
Yn gyntaf oll, rydym yn darparu astudiaeth achos ddienw.

8:30
Yn ei hanfod, datganiad dioddefwr yw hwn ac, yn yr achos penodol hwn, mae'n ymwneud â fferm deuluol yn y Gogledd sydd wedi cael colli rhywfaint o offer amaethyddol, gan arwain at effaith eithaf sylweddol ar y fferm a'r teulu ei hun.

8:46
Yna, yn y pen draw, yr hyn a ddown ato yw'r cwestiynau anodd.

8:49
Dyma lle mae'r cymhlethdod yn gorwedd.

8:52
Yr hyn sydd gennym ni yw ail fideo a roddwyd gan y Prif Gwnstabl lle mae'r Prif Gwnstabl yn gofyn i'r myfyrwyr ac yn eu hannog i feddwl am rai awgrymiadau.

9:02
Yr hyn a wnaf yw, am eiliad yn unig, gadael y cwestiynau i chi fyfyrio arnyn nhw.

9:07
A'r hyn y byddwn i'n gofyn i chi ei wneud yw meddwl, pan fyddwch chi'n darllen y cwestiynau hyn, sut maen nhw'n dechrau cysylltu â gwahanol raglenni academaidd yn y brifysgol.

9:18
Felly nid ar gyfer myfyrwyr plismona yn unig y mae'r rhaglen hon, nid ar gyfer troseddeg yn unig.

9:23
Rydym am ymgysylltu â chynifer o fyfyrwyr â phosibl, gan gyrraedd ystod mor eang ohonynt ag y gallwn.

9:29
Y gymhariaeth y byddem yn ei defnyddio yn yr achos penodol hwn yw dychmygu eich hunain fel swyddogion heddlu yn eistedd yn y cylch canol yng nghae pêl-droed Old Trafford ym Manceinion.

9:41

A byddai gennych chi broblemau troseddu cymhleth yr hoffech chi geisio atebion iddynt, yn union fel y mae'r heddlu wedi gofyn i'r cyhoedd am gymorth yn draddodiadol i geisio atal neu leihau neu ganfod troseddau.

9:57
Mae pob sedd yn Old Trafford bellach wedi'i meddiannu gan fyfyriwr, israddedigion, ôl-raddedigion a myfyrwyr ymchwil, nid yn unig o'r DU ond o bob cwr o'r byd.

10:07
Ac mae gan y myfyrwyr hynny ystod eang o brofiadau bywyd gwahanol.

10:11
Efallai fod rhai wedi bod yn ddioddefwyr troseddau, efallai fod rhai wedi bod yn droseddwyr sydd wedi treulio dedfrydau o garchar, efallai fod rhai wedi bod yn droseddwyr heb eu cael yn euog.

10:22
A bydd y troseddwyr hynny'n astudio ystod eang o bynciau gwahanol ac rydych chi fel swyddog heddlu yn gallu gofyn iddyn nhw naill ai'n unigol neu mewn grwpiau, neu'r stadiwm cyfan yn llawn myfyrwyr, beth allai fod eu hawgrymiadau o ran atal, canfod neu leihau'r troseddau hynny.

10:43
Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, pan fyddwn yn dechrau meddwl am fygythiadau cenedlaethol, trais yn erbyn menywod a merched, terfysgaeth, troseddau cyllyll ac ati, yna nid ydym yn siarad â'r myfyrwyr yn Old Trafford yn unig, rydym yn siarad â'r myfyrwyr ym mhob maes pêl-droed yng Nghymru a Lloegr.

11:01
Felly gobeithio eich bod wedi gweld o'r cwestiynau sydd o'ch blaen yma sut rydym yn ehangu natur y cyd-destun o fewn y cwestiynau i ystod mor eang â phosibl o fyfyrwyr.

11:11
Efallai yr hoffech chi wybod sut rydyn ni'n dod o hyd i'r problemau hyn.

11:14
Wel, yn ddieithriad, bydd yr heddlu'n awgrymu problem droseddol sy'n peri pryder penodol iddyn nhw a'r cyhoedd maen nhw'n ei wasanaethu.

11:22
Fyddan nhw byth yn dechrau o'r dechrau.

11:24
Bydd gan yr heddlu bob amser lawer iawn o wybodaeth, data a hysbysrwydd ynghylch y drosedd honno.

11:30
Ac, yn aml, y cyfan sydd rhaid iddyn nhw ei wneud yw ei anonymeiddio, sicrhau nad oes dim byd

sensitif, dim byd cyfrinachol yn yr wybodaeth. Maen nhw wedyn yn ei rhannu gyda'r brifysgol a bydd y brifysgol

11:40
wedyn, er enghraifft, adolygu a myfyrio ar yr awgrymiadau a wnaed gan yr heddlu.

11:46
Byddant yn ychwanegu deunyddiau ychwanegol ato ac, yn aml, yn awgrymu gwahanol fathau o gwestiynau a fydd yn ehangu'r cyrhaeddiad i sylfaen y myfyrwyr.

11:57
Unwaith y bydd y myfyrwyr wedi meddwl am eu problemau troseddu, byddant yn llunio eu hargymhellion.

12:01
A'r hyn rydyn ni'n gofyn i'r myfyrwyr ei wneud yw bod yn wirioneddol greadigol.

12:05
Nid o reidrwydd anfon traethawd, ond meddwl am fideos arddull TikTok efallai, cwisiau Instagram ac ati.

12:14
Gofynnwn i'r myfyrwyr fod yn greadigol; gofynnwn i'r myfyrwyr fod yn arloesol ac yna uwchlwytho popeth yn ôl i fewnrwyd y brifysgol.

12:23
A dylwn i ddweud bod pob rhyngweithiad sydd gan y myfyriwr â'r rhaglenni hyn yn cael ei recordio.

12:30
Rydyn ni'n gwybod yn union beth maen nhw wedi'i wneud ac rydyn ni'n gwybod yn union beth maen nhw wedi'i ddweud o ran eu hymgysylltiad â'r rhaglen drwy fewnrwyd y brifysgol.

12:38
Yna caiff holl awgrymiadau'r myfyrwyr eu sgrinio, eu sgrinio gan academyddion fel fi sydd â chefndir yn yr heddlu, i geisio dewis yr elfennau hynny sy'n newydd a/neu'n ddiddorol.

12:49
A dim ond y rhain sy'n cael eu hanfon at yr heddlu.

12:52
Dydyn ni ddim yn anfon traethodau gan 120 o fyfyrwyr, er enghraifft, dim ond y ffeiliau hynny rydyn ni'n eu hystyried yn arloesol neu'n ddiddorol rydyn ni'n eu dewis.

13:00
Fodd bynnag, bydd pob myfyriwr ar y cam hwn yn derbyn llythyr gwerthfawrogiad gan y Prif Gwnstabl yn diolch iddynt am eu horiau gwirfoddoli.

13:12
Dylwn i dynnu sylw at hyn os gallaf.

13:13
Cwpl o elfennau cyflym.

13:15
Mae gennym awgrym a ddaeth drwodd gan gydweithwyr ym Mhrifysgol Greenwich, cyfle i fyfyrwyr ennill bathodyn LinkedIn.

13:24
Gallant ychwanegu hyn at eu proffil LinkedIn fel micro-gymhwyster.

13:29
Ac yna, fel y gwelsom ar y dechrau, mae yna ail holiadur nawr.

13:35
Daw hyn eto ar ffurf cod QR a dogfen Microsoft Forms hefyd.

13:40
A'r hyn rydyn ni hefyd yn ei wneud yw tynnu sylw yma eto at gyfleoedd ar gyfer rolau amser llawn neu rolau gwirfoddol, yn ôl yn yr heddlu.

13:47
Rydym yn ailadrodd y cwestiynau a welsoch ar y dechrau, cwestiynau o ran ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu.

13:56
Wel, mae dadansoddiad cynnar o adborth gan y myfyrwyr, a byddwn i'n awgrymu ei fod yn gyfyngedig, ond mae'r adborth cynnar yn awgrymu bod 16% o fyfyrwyr sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen hon yn nodi cynnydd mewn ymddiriedaeth yn yr heddlu.

14:15
Mae 30% yn awgrymu eu bod bellach yn fwyfwy cefnogol i'r heddlu, mae 75% o fyfyrwyr bellach yn mynegi diddordeb mewn rolau a/neu yrfaoedd mwy ffurfiol yn yr heddlu, ac mae 86% yn awgrymu eu bod yn gwneud Cymru yn lle mwy diogel.

14:41
Felly, mewn sawl ffordd i chi,

14:42
dyna'r rhaglen Gwirfoddolwyr Rhithwir.

14:45
Mae nifer o heddluoedd yn ymwneud â'u prifysgolion lleol yn y rhaglenni hyn ac maen nhw i gyd yn edrych ar wahanol broblemau troseddu wrth iddyn nhw ddatblygu'r mentrau hyn gyda'r heddlu.

14:59
Byddem yn edrych ymlaen yn fawr at fy nghyfarfod maes o law ac rydym yn gobeithio bod y rhaglen hon wedi bod o ddiddordeb i chi.

15:05
Os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth bellach gennym ni yn y cyfamser, cysylltwch â mi yn: martin.wright@dyfed-powys.police.uk

15:14
Diolch yn fawr.